

Cyngor Cymuned Mawddwy

Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.

☎ 01650 531 405

E bost: huwjones792@btinternet.com

1af o Fai 2025

Annwyl Gyfaill

CYNHELIR CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED MAWDDWY Nos Fercher yr 14eg o Fai am 8.00pm yn y Neuadd, Dinas Mawddwy.

Nodyn ar gyfer y cyhoedd. Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor fel arfer, gan gynnwys gwneud hynny yn rhithiol os oes angen. (Deddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau 2021 Adran 47 – cyfarfod aml-leoliad) . Cysyllter â'r Clerc am fanylion o leiaf 3 diwrnod llawn cyn y cyfarfod, er mwyn sicrhau fod y trefniadau priodol mewn lle.

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

CLERC

AGENDA

1. Gair o groeso a derbyn ymddiheuriadau. Gwahodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

Derbyn adroddiad blynyddol sy'n nodi blaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn 2024-25.

2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod y 5ed o Fawrth 2025 – gweler yn atodol.

4. Materion yn codi,

a) Materion Llwybrau, Priffyrdd a Chefnffyrdd.

b) Gwerthiant Eglwys Llanymawddwy -derbyn y diweddaraf.

c) Blwch Post Cerist

d) Pwyllgor yr Hen Fynwent – derbyn y diweddaraf.

- e) Safle chwarae i blant hyd at 15 oed yn y Plas yn Dinas – derbyn y diweddaraf.
- f) Archwiliad/gofal mynwentydd – ystryied y sefyllfa ddiweddaraf.
- g) Digwyddiad Age Cymru yn y Neuadd pawns Mercher 23ain Ebrill.
- h) Gohebiaeth ‘Cyfeillion Llyn’
- i) British Fell Relay Championship – drwy Ddinas Mawddwy 18fed Hydref 2025. Nodi gohebiaeth gan Elen Evans – danfonwyd eisoes.

5. Ethol Swyddogion 2025-26.

- a) Cadeirydd
- b) Is- Gadeirydd

6. Telerau a chostau Clerc 2025-26

7. Cadarnhau dyddiadau gweddill cyfarfodydd Cyngor Mawddwy ar gyfer 2025/26.

8. Derbyn ffurflenni **cofrestr buddiannau** wedi eu cwblhau gan Gynghorwyr. Hefyd mabwysiadu cod ymddygiad, cadarnhau rheoliadau arianol/sefydlog, asesiad risg a'r cofrestr asedau (fydd wedi eu dosbarthu ymlaenllaw neu ar ein gwefan) Hefyd mabwysiadu y polisiau eraill – pryderon a chwynion, cyfle cyfartal, amgylcheddol, bioamrywiaeth, diogelu data a rhyddid gwybodaeth (ar y wefan)

9. **Cynrychiolaeth y Cyngor Cymuned** ar bwyllgorau / sefydliadau allanol – Un Llais Cymru, Y Neuadd Bentref yn Dinas, Pwyllgor yr Hen Fynwent, Eco Dyfi ayyb. Ethol neu ail-ethol cynrychiolwyr o'r Cyngor.

10. Materion Cynllunio

NP5/74/464H – newidiadau i'r cwrs **Red Bull hardline** a ganiateir i gynnwys darnau ychwanegol o'r trac a thynnu ac adfer darn o drac a naid a gymeradwywyd eisoes. *(hwn wedi ei ddanfon atoch eisoes yn gwahodd sylwadau, a'r Cyngor yn gefnogol)*

Ehangu mast ffon – Ty'n Pwll, Dinas Mawddwy (danfonwyd allan 30.04.25)

11. Materion Cyllid.

- a) Cyflwyno cyfrifon 2024-25 sydd wedi eu paratoi a'u danfon i'r archwilydd mewnol.
- b) Nodi gohebiaeth ac anfoneb y cwmni yswiriant a chadarnhau manylion y gorchudd yswiriant ar gyfer 2025-26. (wedi ei ddanfon allan 30.04.25)
- c) Nodi derbyn rhan gyntaf y praesept am 2025-26. Nodi balansau y cyfrifon, gyda chyfeiriad at gyllideb 2025-26.
- d) Anfonebau i'w talu
 - Yswiriant y Cyngor £564.55

e) Ceisiadau am arian.

- Ambiwylans Awyr Cymru

12. **Gohebiaeth**

- a) Sesiynau Hyfforddiant Un Llais Cymru.
- b) Amddiffyn gwasanaethau Bronglais – cyfarfod cyhoeddus 20fed Mehefin.
- c) Cyfuno wardiau y Cyngor – ymgynghoriad – wedi ei ddanfôn allan i'r Cynghorwyr 23.03.25

13. **Unrhyw fater arall**